

Gwers 33 – Y Cymydog Da

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Luc 10:25–37

Y mae'r ddameg hon yn perthyn yn unig i Luc. Y mae adrannau eraill sy'n gyfochrog i'r sgwrs rhwng Iesu a'r cyfreithiwr, yn enwedig y crynhoad o'r Gyfraith yn y gorchymyn i garu, yn Mathew 22:34–40 a Marc 12:28–31. Ond y mae gwahaniaethau, yn y lleoliad, a'r ffaith mai Iesu sy'n ateb y cwestiwn, 'Pa orchymyn yw'r mwyaf yn y Gyfraith?' (Mathew) a 'Prun yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?' (Marc), tra yma, y cyfreithiwr sy'n dyfynnu Deuteronomium 6:5, 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy hun' (Luc 10:27).


Ar y tri achlysur, pwrpas gofyn cwestiwn i Iesu oedd rhoi prawf arno, y Phariseaid a'r Sadwceaid yn Mathew a Marc, ac meddai Luc yma, 'Dyma un o athrawon y Gyfraith yn codi i roi prawf arno gan ddweud, "Beth a wnaif i etifeddu bywyd tragwyddol?"' (Luc 10:25). Byddai rabiniaid yn trafod materion o'r fath yn gyhoeddus ac yr oedd cwestiwn y cyfreithiwr yn un a drafodid yn aml gan yr Iddewon. Yr oedd yn gwestiwn da ond roedd y cymhelliad yn wael, sef baglu Iesu; ond y cyfreithiwr a faglwyd yn y diwedd. Nid yw Iesu'n dechrau'r stori am y teithiwr trwy ddweud ei fod yn adrodd dameg, felly mae'n bosibl ei fod yn cyfeirio at ddigwyddiad real. Roedd Iesu ar dir peryglus yma oherwydd roedd am ddangos yr Iddew mewn gwedd wael a'r Samariad mewn gwedd foddhaol iawn, a byddai cyfeirio at ddigwyddiad diweddar oedd yn hysbys i bawb yn ei wneud yn llai hunan trechol.

Y mae'r ddau sy'n anwybyddu'r truan ar lawr yn bersonau crefyddol. Y cyntaf i ddod ar ei draws oedd offeiriad ar ei ffordd o Jerwsalem, yn mynd adref mae'n debyg ar ôl cyfnod o wasanaeth yn ddinas. Pan welodd y truan, efallai iddo dybio ei fod yn farw ac yr oedd y Gyfraith (Lef. 21:1ym) yn gwahardd i offeiriad gyffwrdd mewn corff marw, ac y mae'n croesi i'r ochr arall. Yr un oedd ymateb y Lefiad, swyddog uchel yn y Deml, efallai am yr un rhesymau â'r offeiriad. Efallai bod y gwrandawyr yn disgwyl i Iesu gyfeirio nesaf at leygwr o Iddew fel ergyd yn erbyn crefyddwyr. Samariad fyddai'r olaf a ddisgwyliid i estyn cymorth i Iddew ar lawr, ond, meddai Iesu, dyma'r un a ddangosodd drugaredd tuag at y dioddefwr. Wedi trin y clwyfau cludodd y truan ar ei anifail i westy a threfnu iddo gael ymgeledd pellach ac yntau'n gyfrifol am y costau ychwanegol.

Trwy wneud y Samariad yn arwr, mae Iesu'n diarfogi'r Iddewon, oherwydd roedd yr Iddewon a'r Samariaid yn elynion (gweler Ioan 4:9). Nid Iddew sy'n estyn cymorth i Samariad, ond Samariad sy'n estyn cymorth i Iddew a anwybyddwyd gan ei bobl ei hun! I gwestiwn y cyfreithiwr, 'Pwy yw fy nghymydog?', ateb Iesu yw unrhyw un mewn angen, beth bynnag fo lliw ei groen, ei iaith na'i grefydd, neu hyd yn oed os ystyrir ei bobl yn elynion.

Jericho

Gweler nodyn yng ngwers 13. Tref wedi tyfu o amgylch gwerddon yn anialwch Jwdea, ar y briffordd o Jerwsalem tua gogledd y wlad. Ymdroellai'r ffordd drwy fryniau llwm Jwdea ac yr oedd yn ddrwgenwog am ladron penffordd a ymguddiai yn yr ogofau a frithai'r tirwedd.



Dyweddodd Iesu stori wrth ei ffrindiau. Roedd am eu dysgu pa mor bwysig yw hi fod ffrindiau Iesu gofalu am bobl eraill. Beth am ludo darn o ddefnydd dros y dyn truenus i'w gadw'n gynnes? Beth allwn ni wneud i helpu pobl eraill?

Arglwydd Iesu, plis helpa ni i ofalu am bobl eraill. Amen.

Gwers 33 – Y cymydog da

Y Cymydog da | Beibl Newydd y Plant tud. 175

(Luc 10:25–37)



Gwers 33

Y cymydog da

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Y cymydog da tud 140

BEIBL LLIW STORI DUW

Samariad caredig tud 247

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Y Diethryn Caredig tud 104

BEIBL LLIW Y PLANT

Y Samariad Trugarog tud 232

BEIBL NEWYDD Y PLANT

lesu'n dweud stori tud 175

BEIBL BACH I BLANT

"Help" "Help" tud 370

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

Y ffrind da(302) tud 343

BEIBL LLIW Y TEULU

Hanes y Samariad Trugarog (260)
tud 138

Amser Chwarae

Bydd angen y lluniau o'r daflen waith (ar gael i lawrlwytho o www.ysgolsul.com) a sêr gludiog.

Treuliwch amser yn edrych ar y lluniau a'u trafod: beth sy'n digwydd yn y llun? Pwy sydd wedi helpu mewn modd tebyg? Ydy mam a dad/nain/eich ffrind yn hapus pan fyddwch yn helpu fel hyn? Ydy Duw yn hapus pan fyddwn yn garedig wrth eraill? Rhowch seren i bob plentyn a'u gwahodd i ludo wrth y llun y mae ef/hi wedi'i brofi. Cofiwch ganmol y plant am fod yn garedig ac yn barod i helpu eraill.

Neu, gofynnwch i'r plant i feddwl am ffyrdd maen nhw'n dangos caredigrwydd i eraill ac yn helpu eraill. Tynnwch lun syml i gynrychioli syniad pob plentyn a'i g/chanmol am fod yn garedig ac yn barod i helpu eraill. Efallai yr hoffech baratoi sêr mawr o flaen llaw gyda'r geiriau, 'Dwi'n helpu,' a'u rhoi i'r plant – gallwch ddefnyddio tâp-selo i'w osod ar frest y plant i wisgo adref.

Amser Stori

Darllenwch yr hanes o Feibl Newydd y Plant.

Wedyn, adroddwch yr hanes yn eich geiriau eich hun gan annog y plant i feimio. Dyma rai syniadau am beth allech feimio: mynd ar daith; lladron yn dwyn arian y teithiwr; dyn pwysig o'r Deml yn cerdded heibio; athro pwysig arall yn cerdded heibio; y dyn o Samaria yn cyrraedd, stopio, golchi briwiau'r dyn, rhoi diod o ddŵr iddo a'i godi; rhoi arian i berchennog y gwesty i dalu am ofal i'r dyn.

Eglurwch fod lesu wedi dweud yr hanes hwn i esbonio pa mor bwysig yw hi i ffrindiau lesu fod yn garedig i bobl eraill. Roedd lesu'n caru pobl o bob math a threuliodd llawer o amser yn helpu eraill. Mae lesu'n falch pan mae ei bobl yn gofalu am a charu pobl eraill.

Crefft

Llyfr Crefft t. 164-166

Rhigwm

Cewch hyd i rhigwm syml yn y llyfr Crefft t. 164

Cân

Beth am ganu 'Cariad Crist sydd yn rhyfeddol' o Ganeuon Ffydd? Os nad yw'r plant yn gyfarwydd â'r gân cânt ymuno gyda'r symudiadau.

Gweddi

Paratowch siâp calon ar gerdyn coch o flaen llaw. Neu, efallai bod gennych glustog siâp calon i'w ddefnyddio?

Eisteddwch mewn cylch gyda'r plant. Atgoffwch y plant fod Iesu wedi dweud yr hanes hwn i ddysgu ei ffrindiau i garu ei gilydd ac i edrych ar ôl ei gilydd. Wrth ddal y galon, adroddwch weddi syml yn diolch i Iesu am eich caru. Pasiwch y galon i'r plentyn cyntaf a'i h/annog i adrodd gweddi debyg, ayyb, nes bob pob plentyn wedi cael cyfle i weddi'o. Wedyn, pasiwch y galon o amgylch gan annog y plant i ofyn i Iesu am gymorth i fod yn garedig i bobl eraill. Efallai yr hoffech drafod rhai enghreifftiau ymarferol gyda'r plant yn gyntaf, e.e. 'Arglwydd Iesu, plis helpa fi i fod yn glên efo Beca, fy chwaer fach.'

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed t. 164-166

Tafleini gwefan amserbeibl.org

Cyfres B - Damhegion

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 38: Y Samariad Trugarog

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 334

Llyfrau Stori

Llyfr jig-so Y Samariad Trugarog
Ifan Tom yn cael help

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Rhif 46: Help! Help!

